

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Mehefin 3ydd 2014

Presennol: Dewi Jones (Cadeirydd), Huw Antur, Beryl Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Alan Jones Evans (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol).

Hefyd yn bresennol: (eitem 1311) Lowri Rees Roberts, ar ran Partneriaeth Penllyn.

Ymddiheuriadau: Lis Puw (Clerc)

1299 Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a llongyfarchodd bawb am eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ddiweddar, gan ddiolch hefyd i'r holl ardalwyr am eu hymdrechion i addurno'r ardal i groesawu'r ŵyl. Gwnaed trefniadau i dynnu baneri'r Cyngor Cymuned i lawr.

1300 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1301 Mynegwyd buddiant gan Huw Antur yn eitem 1312.6 (Ymgyrch Mynyddoedd Pawb).

1302 Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod Mai 2014.

1303 Materion yn codi o'r Cofnodion:

i) Cofnod 1290 - Triathlon y Bala: Gofynnwyd i Alan Jones Evans holi swyddogion trafndiaeth Llywodraeth y Cynulliad am drefniadau rheoli traffig y Triathlon.

ii) Cofnod 1292 – Cerrig beddi yn y Fynwent Newydd. Adroddwyd fod un garreg fedd wedi ei gwneud yn ddiogel, ond bod un arall erbyn hyn angen sylw. **Gweithredu – Arwel Lloyd Jones / Karl Jones.**

1304 Adroddiad y Cyngorydd Sir: Cafwyd adroddiad gan Alan Jones Evans pryd y soniodd am ddatblygiad yr Ysgol Dysgu Gydol Oes yn y Bala. Soniodd am bwysigrwydd diogelu'r 6ed dosbarth yn yr ysgol, ac am y drafodaeth ddiweddar ar gynllun addysg ffederal i'r ardal. Dywedodd fod newidiadau yn debygol iawn o fod ar y gweill yn fuan, a bod Cyngor Gwynedd wedi clustnodi £5 miliwn ar gyfer y gwaith er mwyn diogelu'r buddsoddiad gan y Llywodraeth.

Cytunodd Alan Jones Evans hefyd i ail ymweld â'r ffos ar riw Deildre. Nododd ei fod wedi cael cyfarfod i drafod pont Eglwysarn, a bod cytundeb wedi ei gyrraedd.

1305 Un Llais Cymru: Derbyniwyd adroddiad gan Huw Roberts am gyfarfod diweddar o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru, pryd y cafwyd cyflwyniad ar Ofal Henoed gan Morwenna Edwards o Gyngor Gwynedd. Trafodwyd yno hefyd broblemau cyffredin cynnal mynwentydd, ac ymgyrch diogelu ffyrdd trwy'r sir.

1306 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan y clerc am sesiwn hyfforddiant i glercod cynghorau cymuned.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

1307 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan y clerc ar gyfarfod Parc Cenedlaethol Eryri yng Nghoed y Brenin ar Fai 21ain.

1308 Materion Eiddo'r Cyngor: Nodwyd fod y gwaith ar Loches Bws Ty'n Ddôl wedi ei gwblhau i safon ardderchog, a chytunwyd i anfon diolchiadau'r Cyngor i bawb a fu'n rhan o'r gwaith. **Gweithredu: Clerc**

Trafodwyd y newidiadau diweddar gan Gyngor Gwynedd i reolaeth mynwentydd, a chytunodd Alan Evans i drafod y mater gydag Arweinydd Portffolio'r Cyngor ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned. **Gweithredu: Alan Jones Evans** Cytunwyd hefyd fod angen i is bwyllgor y fynwent gyfarfod i drafod cyflwr wal y fynwent.

Trafodwyd bil am drethi'r toiledau cyhoeddus. Cytunwyd i ymchwilio i amodau'r brydles ac i wneud cais am ryddhad 'ewyllys da' gan Gyngor Gwynedd (i sylw'r Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr). **Gweithredu: Clerc**

Cytunodd Beryl Griffiths i ysgrifennu paragraff o gyflwyniad i wefan newydd y cyngor. **Gweithredu: Beryl Hughes Griffiths**

1309 Materion ariannol:

i) Nodwyd fod Ffurflen Archwiliad Fewnol y cyngor wedi ei dychwelyd yn gywir, a chytunwyd i'w derbyn fel cyfrifon cywir y cyngor am y flwyddyn. Cytunwyd i'w hanfon ymlaen i'r Archwilydd Allanol Hacker Young.

Adroddwyd fod £4,500 yng nghyfrif banc y fynwent, a £13,182 yng nghyfrif canolog y cyngor. Cytunwyd i agor cyfrif cadw i'r cyngor, ac i drosglwyddo 'arian wrth gefn' i'r cyfrif newydd ar ôl derbyn y taliad nesaf o 50% o'r Praesept.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:

- Anfoneb trydan y toiledau (ar ôl cadarnhau lefel y tâl sefydlog)
- Anfoneb byntings Eisteddfod yr Urdd.
- Anfoneb baneri 'croeso'.
- Anfoneb Ysgol O M Edwards am lungopïo.
- Anfoneb SLCC am hyfforddiant (ac anfonebu Cyngor Tref y Bala am 50% o'r gost)
- Cyfraniad blynyddol at gostau canolog Partneriaeth Penllyn
- Gwobrau cystadleuaeth addurno Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, sef cyfraniad i elusen o ddewis yr enillwyr, sef Dyfir Gwent Ty'n Cornel a Thafarn yr Eryrod.

1310 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned – Doedd dim materion yn codi.

1311 Partneriaeth Penllyn: Cafwyd trafodaeth gyda Lowri Rees Roberts (ar ran Partneriaeth Penllyn) ar elfennau cymunedol a chelfyddydol yr Ysgol Gydol Oes arfaethedig yn y Bala. Cytunwyd ar y canlynol:

- Fod angen darpariaeth theatr yn y dref.
- Fod angen cyfleusterau modern ac addas.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Dewi Jones

- Fod angen darpariaeth sinema yn y dref.
- Fod angen diogelu swyddi sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd.
- Fod angen darpariaeth ar gyfer cyngherddau, dramâu, sioeau cerdd a sinema.
- Fod angen gwasanaeth llyfrgell gyda mynediad i'r we a dogfennau archif.
- Fod angen gwneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r cyfleusterau.

Cafwyd adroddiad hefyd ar ddatblygiad Canolfan yr Henblas, a nodwyd fod disgwyl i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau yn ystod mis Gorffennaf.

1312 Gohebiaeth:

1. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Nid oedd unrhyw sylw ar gais cynllunio NP5/71/E448 i ail adeiladu gwifren drydan ger Dolhendre.

Nodwyd fod y ceisiadau cynllunio am newidiadau ac estyniad i Rydybod, a'r storfa wartheg ym Mlaen y Cwm wedi eu caniatáu gan y Parc Cenedlaethol.

- 2 **Gwynedd:** Derbyniwyd gwybodaeth fod Cyngor Gwynedd am ail wynebu'r ffordd rhwng Capel Peniel a'r Fronwydd.

- 3 **Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol:** Derbyniwyd copi o arolwg diweddar y panel. Tynnwyd sylw at ansawdd wael y Gymraeg yn yr adroddiad. Cytunwyd i beidio ymateb i'r arolwg.

- 4 **Gofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch:** Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan y Parch Carwyn Siddall yn diolch am gyfraniad y Cyngor Cymuned at gostau taith pobl ifanc yr Ofalaeth i Gaerdydd.

- 5 **Mynyddoedd Pawb:** Derbyniwyd cais i gefnogi ymgyrch Mynyddoedd Pawb i ddiogelu a pharchu enwau lleoedd brodorol. Cytunwyd i gefnogi'r ymgyrch.
Gweithredu: Clerc